





# Adroddiad Perfformiad Blynyddol

## 2023/24



www.Siryfflint.gov.uk Facebook.com/CSyFflint @CSyFflint

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# Tabl Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyflwyniad** | 3 |
| 2. | **Gosod Blaenoriaethau** | 4 |
| 3. | **Alinio Amcanion Lles a Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28** | 5 |
| 4. | **Cynllun y Cyngor (2023-28) Crynodeb o Berfformiad** | 6 |
| | 4.1 Asesiad o'n Perfformiad | 6 |
| | 4.2 Crynodeb o Berfformiad ar gyfer Camau Gweithredu | 7 |
| 5. | **Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles** | 9 |
| | 5.1 Blaenoriaeth: Tlodi | 9 |
| | 5.2 Blaenoriaeth: Tai Fforddiadwy a Hygyrch | 12 |
| | 5.3 Blaenoriaeth: Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd | 15 |
| | 5.4 Blaenoriaeth: Economi | 19 |
| | 5.5 Blaenoriaeth: Lles Personol a Chymunedol | 23 |
| | 5.6 Blaenoriaeth: Addysg a Sgiliau | 27 |
| | 5.7 Blaenoriaeth: Cyngor a Reolir yn Dda | 30 |
| 6. | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | 33 |
| 7. | **Y Gymraeg** | 34 |
| 8. | **Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio** | 35 |
| 9. | **Rheoli Risg** | 36 |
| 10. | **Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu** | 37 |
| 11. | **Newid yn yr Hinsawdd (Beth Rydym Wedi'i Wneud Hyd Yma a Beth Sydd Nesaf)** | 38 |
| 12. | **Monitro'r Gyllideb 2023/24** | 40 |
| 13. | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | 42 |
| 14. | **Hunanasesiad Corfforaethol** | 44 |
| 15. | **Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol** | 45 |
| 16. | **Adborth a Sut i Gael Rhagor o Wybodaeth** | 46 |

# Cyflwyniad 1

**Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol Sir y Fflint. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2023/24 yn erbyn y blaenoriaethau a osodwyd yng Nghynllun y Cyngor (2023-28) a'r cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles;**

- Diogelu pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i fodloni eu hanghenion sylfaenol
- Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel
- Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain
- Galluogi adferiad economaidd cynaliadwy a thwf
- Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent
- Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â meysydd allweddol eraill, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a monitro'r gyllideb.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i ymfalchïo mewn bod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ar ran ei gymunedau lleol, ac un sy'n cael ei arwain a'i gymell gan gyfres o werthoedd cymdeithasol cadarn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol arall i lawer, yn enwedig yn wyneb y sefyllfa economaidd bresennol a'r pwysau parhaus o ran costau byw. Fodd bynnag, fel Cyngor rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da; datblygu tai cynaliadwy, cefnogi trigolion Sir y Fflint, darparu addysg a chyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, ac ymrwymiad parhaus i fod yn Gyngor gwyrdd.

Y flwyddyn nesaf byddwn hanner ffordd drwy Gynllun pum mlynedd y Cyngor ac fel Cyngor mae hyn yn rhoi'r cyfle perffaith i ni adolygu'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma yn erbyn ein blaenoriaethau presennol a'n Hamcanion Lles a hefyd llywio cynllunio ar gyfer cyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol i gefnogi gyda gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol.



**Neal Cockerton**
Prif Weithredwr




**Ian Roberts**
Arweinydd y Cyngor

# 2 Gosod Blaenoriaethau

**Mae'r adroddiad wedi newid ychydig o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y llynedd ac mae bellach yn cynnwys dadansoddiad o'n perfformiad diwedd blwyddyn mewn perthynas â Chynllun y Cyngor (2023-28), tra roedd yr adroddiad hwn yn arfer canolbwyntio ar berfformiad ym mhob Portffolio.**

Mae Cynllun y Cyngor (2023-28) yn nodi saith blaenoriaeth ac Amcanion Lles y Cyngor a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. Mae'r blaenoriaethau a'r Amcanion Lles hyn wedi'u dewis fel y meysydd lle gall y Cyngor ychwanegu'r gwerth mwyaf a hefyd ein helpu i nodi sut rydym yn gweithio tuag at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015](#).

Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus dynodedig yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i wella lles yng Nghymru. Mae'r saith nod lles a'r pum ffordd o weithio (egwyddor Datblygu Cynaliadwy) yn gosod pwrpas cyffredinol ar gyfer cyrff cyhoeddus.




Bydd Adran 5 o'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o'n perfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor (2023-28) o dan y penawdau a ganlyn.

- Blaenoriaeth
- Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud
- Llwyddiannau Allweddol a Mwy
- Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

Mae manylion llawn Cynllun y Cyngor (2023-28) Perfformiad Diwedd Blwyddyn ar gyfer 2023-24 ar gael **yma**

# Alinio Amcanion Lles a Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28

3

**Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel y cynghorwyd yn Adran 2, yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor (2023-28) a'r Amcanion Lles, fel y nodir isod:**

| BLAENORIAETH | AMCANION LLES |
|---|---|
| TLODI | • Amddiffyn pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a bod yn wydn. |
| TAI FFORDDIADWY A HYGYRCH | • Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel. |
| CYMDEITHAS WERDD A'R AMGYLCHEDD | • Lleihau effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl troed carbon eu hunain. |
| ECONOMI | • Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy. |
| LLES PERSONOL A CHYMUNEDOL | • Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent. |
| ADDYSG A SGILIAU | • Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu. |
| CYNGOR A REOLIR YN DDA | • Cyngor cyfrifol a dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu mor effeithlon â phosib. |

# 4 Cynllun y Cyngor (2023-28) Crynodeb o Berfformiad

Mae cyfanswm o 335 o ganlyniadau, a rennir yn gamau gweithredu (cyfanswm o 180) a mesurau (cyfanswm o 155) wedi cefnogi'r Cyngor i gyflawni ein Blaenoriaethau a'n Hamcanion Lles ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Yn gyffredinol, mae perfformiad 2023/24 wedi bod yn ddechrau cadarnhaol i Gynllun y Cyngor (2023-28) gyda 74% o gamau gweithredu sydd naill ai wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn, gan gyflawni statws COG gwyrdd (Coch, Oren, Gwyrdd) ac mae 64% o fesurau hefyd naill ai wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau, gan ennill statws COG gwyrdd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r holl ganlyniadau (camau gweithredu a mesurau) wedi'u cyflawni, ond mae angen ystyried nifer y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd fel Cyngor y mae gennym gyfrifoldeb drostynt, a'r cyfyngiadau economaidd ac ariannol cynyddol; fodd bynnag, mae perfformiad a gwelliant yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor gyda llawer o ganlyniadau cadarnhaol wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Gyda Chynllun y Cyngor yn gynllun pum mlynedd a'r nod o feddwl yn y tymor hwy (egwyddor Datblygu Cynaliadwy) mae canlyniadau sy'n parhau y flwyddyn nesaf ac eraill a fydd yn parhau drwy gydol y cynllun. Felly, caniatáu i berfformiad gael ei ddadansoddi dros gyfnod o amser.


## 4.1 Asesiad o'n Perfformiad

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o sut mae cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor (2023-28) yn cael ei fesur. Mae Adran 4.2 yn rhoi crynodeb lefel uchel o berfformiad ein Portffolios a Chynllun y Cyngor (2023-28). Gweler Atodiad 1 ynghlwm am ddadansoddiad llawn o Adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2023/24 Cynllun y Cyngor (2023-28). Lle mae'n cyfeirio at amcan Cynllun y Cyngor (2023-28) yn Adran 4.2, cyfeirir at hyn gan god ar ddechrau'r frawddeg a gellir cyfeirio ato yn Atodiad 1.

### Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Camau Gweithredu



**Cynnydd Cyfyngedig** - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn



**Cynnydd Boddhaol** - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan




**Cynnydd Da** - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn

### Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Mesurau




Bydd deialu cyflym yn darparu dadansoddiad o sut mae mesur wedi perfformio yn y flwyddyn honno, gan ddefnyddio statws COG (Coch, Oren, Gwyrdd) i amlygu'r cyflawniad




Bydd yn darparu dadansoddiad pellach o duedd mesur a sut mae wedi perfformio dros gyfnod o amser

## 4.2 Crynodeb o Berfformiad ar gyfer Camau Gweithredu

Mae perfformiad ar gyfer 2023/24 yn erbyn camau gweithredu ein Cynllun Cyngor (2023-28) wedi'i grynhoi yn y siart isod.

### Siart 1a: Perfformiad Cynllun y Cyngor - Camau Gweithredu 2023/24

I grynhoi, dyma ein cynnydd cyffredinol yn erbyn y camau gweithredu;




In summary our overall progress against the actions are;


- 134 (74%) o gamau gweithredu wedi cyrraedd neu ragori ar y targed (COG gwyrdd)
- 37 (21%) mae o gamau gweithredu yn cael eu monitro (COG oren)
- 9 (5%) cam gweithredu wedi methu targed (COG coch)

# 4 Cynllun y Cyngor (2023-28) Crynodeb o Berfformiad

## 4.2 Crynodeb o Berfformiad ar gyfer Camau Gweithredu

Mae dadansoddiad o berfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer 2023-24 yn dangos:

**Siart 2a: Mesuryddion Perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24**





Mae dadansoddiad o berfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer 2023-24 yn dangos:

- **100 (65%)** mae gan o fesurau statws COG gwyrdd
- **8 (5%)** mae gan 8 (5%) o fesurau statws COG oren
- **47 (30%)** mae gan 48 (31%) o fesurau statws COG coch

# Asesiad o’n Saith Blaenoriaeth a’n Hamcanion Lles 5

## Blaenoriaeth:

### Amcanion Lles - Amddiffyn pobl rhag tlodi trwy eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a bod yn wydn




## Tlodi

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Darparu cynlluniau cymorth Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â’r argyfwng costau byw.
- Manteisio i’r eithaf ar nifer y bobl sy’n cael eu hatgyfeirio i gael cefnogaeth i hwyluso newid tymor hwy.
- Archwilio datblygiad cynlluniau cymorth i liniaru tlodi yn y gwaith.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i weithgareddau chwarae/ ieuenctid trosiannol i gefnogi olyniaeth o gyfleoedd chwarae i glybiau ieuenctid i gefnogi datblygiad pobl ifanc ymhellach.
- Darparu sesiynau gweithgaredd corfforol a lles am ddim o fewn y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol yr haf.
- Darparu mynediad am ddim i sesiynau Ffitrwydd, Bwyd a Darllen yn ystod gwyliau’r haf gan ddarparu gweithgareddau, chwaraeon, darllen, crefftau a phrydau bwyd.
- Cyflwyno a datblygu “Gwasanaeth Well Fed at Home”.



- Ymgysylltu, cefnogi ac atgyfeirio aelwydydd diamddiffyn i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles.
- Parhau i ddarparu mynediad i’r rhyngrwyd yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd yng Nghanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu.
- Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol drwy Wirfoddolwyr Gweithlu Digidol.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy 2023/24

- Mae cynllun caledi wedi'i roi ar waith i gefnogi aelwydydd Awdurdodau Lleol i liniaru effeithiau tlodi mewn gwaith trwy hyrwyddo Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chyngor ar gyllidebu. (CHC003T)
- Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i gynyddu, gan effeithio ar drigolion, ac mae atgyfeiriadau i'r Cyngor yn parhau i gael eu derbyn. Mae cyngor a chymorth parhaus yn dal i fod yn rhan o'r broses ymgeisio am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai a rhoddir cyngor hefyd ynghylch opsiynau ar gyfer cymorth, hyd yn oed os yw cais yn aflwyddiannus. (CHC001T)
- Arweiniodd taliadau awtomatig ar gyfer Grantiau Hanfodion Ysgolion at 3085 o blant yn derbyn taliadau, gan leihau'r pwysau ar deuluoedd a chaniatáu iddynt archebu a phrynu gwisg ysgol. Roedd taliadau awtomatig hefyd yn galluogi'r tîm i flaenoriaethu ceisiadau newydd.
- Cynhaliwyd rhaglen gymunedol Ffitrwydd, Bwyd a Darllen 2023 ar draws y sir yn ystod cyfnod o bum wythnos ym mis Gorffennaf ac Awst 2023, gydag ystod eang o bartneriaid sector cyhoeddus yn mynd i'r afael â materion fel anghydraddoldebau iechyd, tlodi bwyd, lefelau llythrennedd a lles corfforol a meddyliol. Mynychodd 5,040 o deuluoedd a phobl ifanc y 39 sesiwn. Gwnaeth y cynllun gyfraniad sylweddol i gefnogi 3,000 o blant i gofrestru ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf flynyddol. Cofnodwyd 110 o oriau gwirfoddoli gan ein llysgenhadon ifanc. (CAU13T)
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gyflwyno ystod o ddarpariaeth mynediad agored a thargededig mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys clybiau ieuenctid mynediad agored, ysgolion, ysgolion coedwig, canolfannau cymunedol a gwaith stryd. Cyflwynodd Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint 1928 o sesiynau rhwng Ebrill 23 a Mawrth 24 gyda 14,743 o fynychwyr cofrestredig.
- Darparwyd 150 o focsys cinio Nadolig i breswylwyr diamddiffyn.
- Lansiwyd y gwasanaeth Well Fed at Home" ym mis Ebrill 2023 ac mae'r gwasanaeth yn profi'n boblogaidd. Yn Chwarter Pedwar, roedd gan Well Fed dros 200 o gwsmeriaid yn archebu prydau bwyd o'r hybiau bwyd Well Fed o fewn yr hybiau a arweinir gan y gymuned a'r siop symudol.Mae siop symudol Well Fed yn ymweld â 45 o leoliadau ar draws Sir y Fflint gan gynnwys ysgolion, eglwysi, grwpiau cymunedol a chynlluniau llety gwarchod gyda phreswylwyr yn prynu 16,533 o brydau â chymhorthdal. (CHC005T)
- Cefnogwyd 508 o aelwydydd yn erbyn targed o 200 i helpu i leihau'r risg o dlodi tanwydd. Mae Mesur yn cynnwys gwaith a wnaed ar ôl gosod yn ogystal â chyngor ynni, cymorth ac arweiniad i'r cyhoedd yn gyffredinol i gynorthwyo gyda thlodi tanwydd a'r argyfwng ynni presennol yn gyffredinol. (CPE002T)



# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy 2023/24

- 1,203 o fesurau wedi'u cyflawni yn erbyn targed o 1,200 i gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi. Mae hwn yn cynnwys gwahanol gydrannau a gyflwynir gan dîm y Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig. Yn gynwysedig yn yr ystadegyn mae gwaith a wnaed ar stoc tai preifat a chyhoeddus ar gyfer gwres adnewyddadwy, gwres canolog nwy, insiwleiddio llofftydd a cheudod a gosodiadau solar ffotofoltaidd. (CPE001T)
- Gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr y gweithlu, lansiwyd Cymorthfeydd Digidol ym mis Mawrth 2024. Mae amserlen o gymorthfeydd wedi'u cynllunio trwy gydol 2024 mewn gwahanol drefi ar draws y sir. (CGV007T)

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- <u>Is-flaenoriaeth - Tlodi Bwyd</u>

  Nifer y trigolion sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth prydau "O'r Ysbyty i'r Cartref" CHC006M



## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol


- Cynyddu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar Prydau Ysgol am Ddim, Grantiau Hanfodion Ysgol, Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor.
- Cefnogi hybiau a arweinir gan y gymuned i agor eu pantris bwyd eu hunain, gan leihau gwastraff bwyd o archfarchnadoedd lleol a chynyddu mynediad at fwyd tymhorol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal digwyddiad 'Bwyd Da Sir y Fflint' yn yr hydref, gan gydweithio ag asiantaethau allweddol eraill.
- Tanysgrifwyr isel i Fy Nghyfrif gan Ddeiliaid Contract (tenantiaid). Bydd hyrwyddo yn helpu i godi y mwybyddiaeth a dylai Swyddogion Tai anelu at gynnig digidol yn ddiofyn pryd bynnag y cyhoeddir contract newydd.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Blaenoriaeth:

**Amcan Lles:**

**Tai yn Sir y Fflint yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel.**




## Tai Fforddiadwy a Hygyrch

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Comisiynu ystod eang o gymorth mewn perthynas â thai, sy'n bodloni anghenion pobl Sir y Fflint.
- Sicrhau dull partneriaeth aml-asiantaeth i atal digartrefedd a datblygu diwylliant lle mae digartrefedd yn "fusnes i bawb".
- Datblygu dulliau hunan-wasanaeth sy'n galluogi pobl i ganfod eu dewisiadau tai eu hunain trwy gymorth ar-lein.
- Creu gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ar gyfer cymorth a chyngor tai.
- Gweithio gyda phartneriaid cymdeithas tai i adeiladu tai cymdeithasol newydd ac eiddo fforddiadwy ychwanegol.
- Sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn cynnal y Safonau Ansawdd Tai Cymru cyfredol.
- Cefnogi ein tenantiaid i gael mynediad at dechnoleg a chreu cymunedau digidol cynaliadwy.
- Gorffen y cynllun ar gyfer datgarboneiddio cartrefi'r Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod eu heffeithlonrwydd thermol yn cael ei optimeiddio a bod cost gwresogi cartrefi yn cael ei lleihau.
- Sicrhau bod cynnydd yng nghapasiti'r stoc yn bodloni'r anghenion a'r galwadau a nodwyd.
- Gweithredu argymhellion cychwynnol yr adolygiad tai gwarchod i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion tenantiaid presennol a darpar denantiaid.
- Gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau bod ein cymunedau yn cael eu rheoli'n dda, yn lefydd diogel a chynaliadwy i fyw ynddynt.
- Ymgysylltu â thenantiaid y sector preifat gan roi llais iddynt ac ymateb i'w hanghenion.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid ac asiantaethau'r sector preifat i ddeall eu hanghenion yn well.

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy ar gyfer 2023/24

- Mae gwaith yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau Cymorth Tai a Digartrefedd trwy ddatblygu cynnwys gwefan ac ymgysylltu gweithredol â phreswylwyr yn electronig, sy'n ddull dewisol i lawer o ddod o hyd i wybodaeth. Yn ogystal, mae swyddogion yn mynychu gweithgareddau lleol yn rheolaidd i hyrwyddo gwasanaethau a chynigion cymorth trwy grwpiau fel Hybiau Cymunedol lleol, Fforwm Gwasanaethau Plant a digwyddiadau gweithwyr rheng flaen y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a Rhwydwaith Cefnogi Sir y Fflint. (CHC008T)

- Derbyniodd Tîm Gwasanaethau Cefnogi Llety yn y Gymuned dros 500 o alwadau y tu allan i oriau gyda 156 o drigolion angen sylw. Mae timau Gwasanaethau Cefnogi Llety yn y Gymuned yn cefnogi preswylwyr sydd ag ystod o anghenion gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau eraill i gefnogi preswylwyr i aros yn ddiogel ac yn iach a chynnal eu tenantiaeth.

- Mae Map Cyflenwad Tai a data argaeledd wedi'u cynnwys fel rhan o dudalennau gwe y Canolbwynt Tai ar wefan y Cyngor. Mae hyn yn galluogi trigolion i fod yn fwy gwybodus am gyflenwad tai cymdeithasol lleol.

- Bu cynnydd yn nifer yr aelwydydd digartref a ailgartrefwyd gan y Cyngor a Phartneriaid Tai drwy'r broses enwebu digartrefedd o 50%.

- Mae'r Cyngor yn parhau i dargedu eiddo nad ydynt yn bodloni sgôr 65 y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) drwy waith gwella amrywiol. Mae hyn yn cynnwys gosod systemau gwres canolog effeithlon, technoleg adnewyddadwy (Paneli Solar a Gwresogi Aer) a chontractau adnewyddu allanol helaeth yn cynnwys ffenestri, drysau, insiwleiddio llofftydd a gorchuddion to newydd, ymdrinnir â pherfformiad ynni ac effeithlonrwydd thermol ein heiddo a'u gwella. Ein sgôr SAP ar gyfartaledd ar gyfer ein stoc gyfan yw 73.5%. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn symud tuag at ymgorffori ein mesurau datgarboneiddio yn ein rhaglenni buddsoddi o waith adnewyddu ar ein cartrefi â thenantiaid ynddynt. (CHC012T)

- Mae grwpiau gwella gwasanaethau staff yn gweithio trwy flaenoriaethau fel y nodwyd yn yr Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR) diwethaf i weld lle gellir gwneud gwelliannau. (CHC023T)

- Mae gwaith yn parhau o ran cymorth tai a chyngor i landlordiaid pan fydd ganddynt broblemau gyda phreswylwyr. Mae hwn yn weithgaredd atal cadarnhaol i osgoi problemau tai a risgiau digartrefedd. Lle mae landlordiaid yn gwerthu eiddo, mae gennym bellach gynnig prynu a phroses sefydledig mewn partneriaeth â Thimau Strategaeth Tai a Thai Gwag. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i landlordiaid yn dweud wrthym eu bod yn gwerthu ac yn gadael y farchnad.(CHC029T)

- Wedi defnyddio 96% o'r Grant Tai Cymdeithasol o £13.3m (SHG) a ddyrannwyd yn 2023/24.Mae cynlluniau wedi'u blaenoriaethu i'w cynnwys yn y prif Gynllun Datblygu Rhaglen. (CHC014T)

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- **Is-flaenoriaeth - Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd**

| | |
|---|---|
| **CHC007M** | Nifer y bobl a aeth at y gwasanaeth digartrefedd am gymorth |
| **CHC008M** | Canran o ganlyniadau atal llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 |
| **CHC009M** | Canran o ganlyniadau lliniaru llwyddiannus ar gyfer digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 |
| **CHC010M** | Nifer yr aelwydydd y darperir ar eu cyfer gan y Cyngor o dan ddyletswyddau digartref Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| **CHC011M** | Hyd cyfartalog arhosiad (diwrnodau) ar gyfer yr aelwydydd hynny mewn llety digartrefedd dros dro dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 |

- **Is-flaenoriaeth - Anghenion Tai a Dewisiadau Tai**

| | |
|---|---|
| **CHC015M** | Nifer yr ymgeiswyr a ailgartrefwyd trwy'r Un Llwybr Mynediad at Dai gan yr Holl Bartneriaid Tai |
| **CHC017M** | Nifer yr aelwydydd wedi'u hailgartrefu gyda gofynion sylweddol o ran addasiadau |

- **Is-flaenoriaeth - Tai Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| **CHC018M** | Nifer y Tai Cyngor sy'n cael eu hadeiladu |
| **CHC021M** | Nifer y Tai Fforddiadwy a gwblhawyd trwy Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru (NEW Homes) |
| **CHC019T** | Cynyddu portffolio tai'r Cyngor trwy adeiladu eiddo tai cymdeithasol ac eiddo fforddiadwy ar gyfer Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru (NEW Homes) |
| **CHC024T** | Cefnogi ein tenantiaid i gael mynediad at dechnoleg a chreu cymunedau digidol cynaliadwy |



## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

- Cwmpasu'r posibilrwydd o uno timau Teleofal (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Carelink i greu gwasanaeth mwy effeithlon i'r Cyngor a'r cwsmer.
- Cynnal arolwg STAR eto yn 2024/25 ac asesu'r ymateb i feysydd a nodwyd yn flaenorol i'w gwella, gan gynnwys barn tenantiaid a chaiff y rhain eu hystyried er mwyn cyfarwyddo'r gwasanaethau a ddarperir a chyflawni gwasanaethau.
- Sicrhau bod yr adolygiad tai gwarchod yn parhau i asesu a nodi anghenion tenantiaid presennol a darpar denantiaid a bod y cyngor yn gweithredu atebion i'w cyflawni.
- Cyflawni'r ailstrwythuro y cytunwyd arno ar gyfer y Gwasanaeth Tai ac Atal gan gynyddu adnoddau i ymgysylltu â Landlordiaid Sector Preifat.

## Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles


5

# Blaenoriaeth:

Net Zero

### Amcan Lles:

**Lleihau a gwella effaith gwasanaethau'r Cyngor ar yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau ehangach Sir y Fflint i leihau eu hôl-troed carbon eu hunain.**




# Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd

## Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Cynhyrchu canllawiau ar ddewisiadau hyfyw a chyflawnadwy i liniaru effaith ffosffadau o ddatblygiad newydd ar afonydd sy'n cael eu gwarchod mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).
- Gweithio gyda phartneriaid ymddiriedaeth hamdden a diwylliant Sir y Fflint i ostwng allyriadau carbon.
- Datblygu cynlluniau tuag at fod yn ddi-garbon net ar gyfer ein hasedau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Adolygu'r polisi caffael i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan gyflenwyr.
- Sicrhau bod newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau allweddol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.
- Asesu dichonolrwydd cynlluniau mewn asesiadau tir ar gyfer ymwrthedd llifogydd a sychder a gwella bioamrywiaeth a chynyddu storio carbon.
- Nodi prosiectau i gefnogi ymhellach uchelgeisiau addasu hinsawdd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.
- Lleihau effaith ein fflyd ar yr amgylchedd drwy ddechrau defnyddio cerbydau isel iawn eu hallyriadau.
- Darparu cynnydd mewn brigdwf fel rhan o'r Cynllun Coetir a Choed Dinesig.
- Gwella'r amgylchedd naturiol trwy gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu Parc Arfordirol Sir y Fflint drwy gynhyrchu astudiaeth gwmpasu.
- Cefnogi datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus.
- Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r Sir ymhellach.
- Gweithredu cyfleusterau croesi ffurfiol ar safleoedd croesi croesfannau ysgol presennol.
- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu â grwpiau a arweinir gan y gymuned trwy ddatblygu mentrau ailgylchu.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- Rhagwelwyd mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y sail bod rhai safleoedd tai a neilltuwyd yn gorfod dangos niwtraliaeth maetholion o ran peidio â niweidio Llyn Tegid ac Afon Dyfrdwy (Ardal Cadwraeth Arbennig) trwy ryddhau ffosffadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff i Afon Alun. Dechreuodd gwaith ar ymarferoldeb datblygu gwlyptiroedd ochr yn ochr â'r gwaith trin dŵr gwastraff yn yr Wyddgrug, Bwcle a'r Hob, a fyddai wedi gofyn am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr fel rhan o broses a fyddai wedi'i nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhyddhau trwyddedau wedi'u diweddaru a heb eu newid ar gyfer y tri gwaith trin dŵr gwastraff ac argaeledd hyblygrwydd (gwahaniaeth rhwng lefel y ffosffad a ganiateir gan y drwydded a lefel wirioneddol y ffosffad sy'n cael ei ryddhau gan y gweithfeydd trin dŵr) a welwyd gan Dŵr Cymru wedi darparu ffenestr ar gyfer cyflawni dyraniadau CDLl. (CPE044T)
- Mae gan y Strategaeth Gaffael ddiwygiedig ar gyfer 2024/2027, thema allweddol sy'n canolbwyntio ar 'Argyfwng Hinsawdd' - sicrhau bod ymarferion caffael yn cael llai o effaith ar allyriadau CO2, a bod ein cyflenwyr yn croesawu ein huchelgeisiau Carbon Sero Net hefyd.(CPE009T)
- Bydd buddsoddiad y Cyngor yn y Fframwaith Ffitrwydd ar gyfer 2024/25 a 2025/26 yn gweld gwaith effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy gwerth £1.5 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn ein hasedau adeiladu. Mae'r fframwaith wedi'i ddyfarnu a bydd gwaith prosiect yn dechrau ar ôl Ebrill 2024. (CPE010T)
- Mae'r strategaethau a'r cynlluniau canlynol wedi'u hadolygu ac maent bellach yn ymgorffori uchelgeisiau Carbon Sero Net y Cyngor: Cynllun Rheoli Asedau, Strategaeth Gaffael, Cynllun Bioamrywiaeth, Strategaeth Wastraff, a Strategaeth Tai a chynllun gweithredu.
- Plannwyd dros 100 o goed safonol, a phlannwyd dros 4000 o fonion, gyda photensial atafaelu carbon o 2,972kgCO2e.
- Mae drafft gweithredol o'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd wedi'i ddrafftio gydag ymgynghorwyr a'r cam nesaf yw cwblhau'r cynllun gweithredu drafft er mwyn ymgynghori â budd-ddeiliaid, Aelodau a budd-ddeiliaid allweddol. Bydd hyn wedyn yn arwain at ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y strategaeth cyn adolygu'r sylwadau a wnaed, ei chymeradwyo gan y Cyngor, a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. (CPE012T)
- Statws Caru Gwenyn: Wedi ennill statws caru gwenyn i gydnabod ein gwaith ar gyfer pryfed peillio, ni yw'r pedwerydd Awdurdod Lleol yng Nghymru i dderbyn y statws.
- Grantiau Bychain ar gyfer Natur: Mae'r Cyngor wedi darparu ein grant natur cymunedol bach cyntaf a ddyrannodd dros £13,000 i grwpiau cymunedol bach ac ysgolion i gefnogi nodweddion lleol ar gyfer natur.
- Llwyddodd prosiect Pyllau i Ysgolion i sicrhau cyllid o Gronfa Effaith Gymunedol Airbus i adfer pyllau mewn dwy ysgol, roedd y prosiectau'n cynnwys ymweliadau addysgol paratoadol, gwaith pyllau, a sesiynau gwirfoddoli gyda staff corfforaethol Airbus.
- Gwella'r amgylchedd naturiol yn sylweddol trwy newidiadau

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

mewn rheoli ystadau, plannu coed a phrosiectau isadeiledd gwyrdd. (CPE016T)

- Asesiad o dros 180 o safleoedd sy'n eiddo i Sir y Fflint ar gyfer addasrwydd ar gyfer plannu coed i ddod yn rhan o Goedwig Sir y Fflint.
- Rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau Cefn Gwlad a Dyffryn Maes Glas gyda 7537 yn cymryd rhan yn y digwyddiad.
- Cyllid Ffyniant Cyffredin wedi'i sicrhau i ddatblygu ymhellach sefydlu Parc Arfordir Sir y Fflint. (CPE019T)
- Cyrhaeddodd cynnwys hyrwyddo ac ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol 54,000, sy'n gynnydd o 10% yn nifer y dilynwyr cymdeithasol.
- Cynlluniau Teithio Llesol gan gynnwys; Ardal Drefol Treffynnon a Chwe Ysgol yn Fflint wedi'u darparu fel rhan o fentrau Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau sy'n galluogi disgyblion i gerdded a beicio i'r ysgol yn ddiogel, yn ogystal â bod o fudd i'r cymunedau lleol ehangach.
- Mae'r holl waith peirianneg sifil sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau croesi ffurfiol wedi'i gwblhau a bydd yn weithredol ym mis Mai 2024. (CST017T)



- Astudiaeth ddichonoldeb gwefru Cerbydau Trydan (EV) a Chynllun Cyflawni cysylltiedig wedi'u cwblhau ym mis Chwefror 2024. Nod yr astudiaeth yw nodi cam nesaf pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio cyhoeddus Sir y Fflint. (CST004T)
- Mae Tîm y Strategaeth Wastraff wedi bod yn ymgysylltu'n frwd â chymunedau yn Sir y Fflint i hyrwyddo ein gwasanaethau ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae hyn wedi digwydd gyda chymdeithasau tai, mewn cyfarfodydd grwpiau cymunedol ac ar garreg y drws. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos gyda thrigolion a budd-ddeiliaid Sir y Fflint i gael eu mewnbwn i ddatblygu Strategaeth Adnoddau a Gwastraff yn y dyfodol. Cynhaliwyd pum digwyddiad ymgysylltu ym mis Ionawr 2024, lle cyfarfu aelodau'r tîm gyda thrigolion Sir y Fflint a thrafod ailgylchu. Mae gwaith wedi dechrau gyda Chaffi Trwsio Cymru i gyflwyno mwy o ganolfannau trwsio. (CST009T)
- Mabwysiadwyd Strategaeth Adnoddau a Gwastraff newydd ym mis Mawrth 2024 sy'n nodi mesurau i wneud y mwyaf o'r gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio. (CST019T)
- Mae criwiau gwastraff ac ailgylchu Cyflenwi Gwasanaethau yn parhau i ymweld ag oddeutu 11,624 y dydd ac eleni maent wedi cynnal cyfradd gasglu lwyddiannus o 99.72%.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- Is-flaenoriaeth - Cyngor Di-Garbon Net

  **CPE018M** Canran y cynghorwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â charbon.

  **CPE018M** Canran y gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â charbon.

  **CPE020M** Nifer y contractau gydag asesiad o effaith carbon.

- Is-flaenoriaeth - Newid Hinsawdd ac Ymaddasu

  **CPE024M** Cynnydd mewn atafaelu carbon (Kg/tCO2e).

- Is-flaenoriaeth - Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd

  **CPE0025M** Cwblhau'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd erbyn y dyddiad cyflwyno diwygiedig gan Lywodraeth Cymru.

- Is-flaenoriaeth - Strategaeth Fflyd

  **CST013M** Nifer y Cerbydau Allyriadau Isel Iawn ar y Fflyd.

- Is-flaenoriaeth - Opsiynau Teithio Llesol a Chynaliadwy

  **CST018T** Dad-ddosbarthu llwybrau peryglus ar draws y sir lle bo'n briodol trwy weithredu mentrau peirianneg.

  **CST016M** Nifer y llwybrau peryglus sydd wedi'u dad-ddosbarthu drwy Weithredu'r isadeiledd Teithio Llesol i ddarparu llwybrau diogel i ysgolion.

- Is-flaenoriaeth - Economi Gylchol

  **CST006T** Cyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru

  **CST008T** Hyrwyddo'r opsiwn i ailddefnyddio a thrwsio eitemau diangen mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref trwy weithio mewn partneriaeth ag Elusennau lleol neu fentrau cymdeithasol.



## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

- Gohiriwyd cyflwyno'r e-ddysgu Hanfodion Hinsawdd i'r gweithlu ehangach i gyd-fynd â chyflwyno'r porth Dysgu newydd. Unwaith y bydd y modiwl hwn ar gael, bydd yn cynyddu'n sylweddol nifer y gweithwyr a'r Aelodau sy'n derbyn hyfforddiant yn ymwneud â charbon.
- Gwella targedau ailgylchu. Yn 2023/24 methodd y Cyngor y targed ailgylchu statudol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gan arwain at gostau tordyletswydd posibl.
- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo eleni i nodi asedau tir Cyngor Sir y Fflint sydd â'r potensial ar gyfer cynlluniau plannu er mwyn lliniaru llifogydd yn naturiol, a gwella bioamrywiaeth ac atafaelu carbon ein tir. Mae'r gwaith hwn bron wedi'i gwblhau a bydd yn helpu i hysbysu safleoedd y gellir eu hystyried ar gyfer plannu yn y blynyddoedd i ddod.


# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Blaenoriaeth:



### Amcan Lles:

**Cysylltu cymunedau a galluogi adferiad a thwf economaidd cynaliadwy.**




## Economi

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Sicrhau bod yr ymyriadau i'r Economi yn ystyried ac yn diwallu anghenion unigolion a busnesau gwledig.
- Comisiynu adolygiad data ar gyfer Sir y Fflint wledig a chynnal ymgynghoriad cymunedol i ddeall anghenion cymunedau gwledig yn well.
- Monitro iechyd a bywiogrwydd canol trefi igefnogi rheolaeth effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnes.
- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn eiddo canol tref yn arbennig i hwyluso defnydd mwy cynaliadwy a chynnwys gwelliannau i'r amgylchedd.
- Deall anghenion a chefnogi mentrau cymunedol mewn lleoliadau canol trefi.
- Mae llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn ganolbwyntiau lles cymunedol gydag amcanion cymdeithasol yn sail i'w gweithrediad.
- Ymgysylltu â busnesau bach canol tref a hyrwyddo'r pecynnau cefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw.
- Cefnogi busnesau bach a/neu lleol i ymgysylltu â chyfleoedd caffael y sector cyhoeddus.
- Cefnogi adferiad marchnadoedd stryd a dan do y Sir.
- Cefnogi twf y sector busnes bwyd a diod yn lleol ac yn rhanbarthol drwy farchnata a phrosiectau cydweithio.
- Cefnogi adferiad y sectorau twristiaeth a lletygarwch ac ailddatblygu hyder yn y diwydiant.
- Cynyddu graddfa ac effaith y sector busnes cymdeithasol.
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i ostwng eu hôl-troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Gwella cysylltedd digidol ar draws y Sir ar gyfer busnesau a phreswylwyr.
- Gwneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.
- Cydlynu dull amlasiantaeth i gefnogi busnesau i recriwtio pobl o grwpiau sydd dan anfantais.
- Cyflawni rhaglenni mentora a chefnogaeth ehangach i gynorthwyo pobl dan anfantais i fod yn rhan o'r farchnad waith eto.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- Mae'r holl ymyriadau cyfredol (y tu allan i brosiectau canol tref penodol) sy'n cefnogi unigolion a busnesau yn targedu'r Sir gyfan. (CPE051T)
- Mae trafodaethau ar y gweill gyda Phrifysgol Wrecsam ynghylch sut y gellir asesu a chefnogi anghenion trigolion gwledig Sir y Fflint yn fwyaf effeithiol. (CPE053T)
- Prosesodd y Cyngor dros £30m o gynigion prosiect y Gronfa Ffyniant Gyffredin â phrosesau tebyg ar draws Cynghorau eraill Gogledd Cymru. Dyfarnwyd £11m o gyllid i brosiectau yn Sir y Fflint sy'n cefnogi busnesau, cefnogi lleoedd a chymunedau a gwella sgiliau a chyflogadwyedd. Mae mwyafrif y prosiectau yn cwmpasu'r Sir gyfan gan gynnwys ardaloedd gwledig, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar yr economi ymwelwyr, a fydd yn dod â budd anghymesur i fusnesau gwledig.
- Mae gwaith wedi parhau yn ystod Chwarter 4 (Ionawr - Mawrth 2024) i fonitro ac ymateb i iechyd, bywiogrwydd ac anghenion canol trefi ar draws Sir y Fflint. Mae hyn wedi cynnwys cynllunio a chyflawni ymgynghoriad ar-lein ar gyfer pedair tref ar draws Sir y Fflint, yr ymatebodd 3,356 o bobl leol iddo, a hefyd adolygu data sy'n ymwneud â chanol trefi i ddatblygu proffiliau cyfredol o'r cryfderau presennol a ffocws ar gyfer gwelliant/buddsoddiad yn y dyfodol. Mae ffocws y tri mis diwethaf wedi bod ar gychwyn gwaith mewn pedair o'r saith tref (Cei Connah, y Fflint, yr Wyddgrug a Queensferry). Mae'r cynllun creu lleoedd ar gyfer Shotton wedi'i ddatblygu ac mae'n nodi 10 thema a blaenoriaeth allweddol sy'n ymateb i anghenion lleol. Mae'r cynllluniau creu lleoedd ar gyfer Treffynnon a Bwcle hefyd wedi'u comisiynu ac mae gwaith wedi mynd rhagddo ar y rhain hefyd. (CPE024T)
- Cyngor wedi defnyddio 'Save the High Street' i ddarparu cymorth busnes wedi'i deilwra ar gyfer busnesau canol trefi ar draws saith canol tref Sir y Fflint, i gefnogi eu twf, eu datblygiad a'u harallgyfeirio trwy gyflwyno rhaglen gymorth ddwys wyth wythnos. Sir y Fflint oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fod yn bartner i 'Save The High Street' gan ddefnyddio cyllid a sicrhawyd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Cymerodd 14 o fusnesau yng nghanol trefi ran yn rhaglen ddwys wyth wythnos 'Save The High Street'. Oherwydd llwyddiant y prosiect peilot, bydd 30 o fusnesau eraill yn elwa o'r ddarpariaeth hon rhwng Ebrill a Thachwedd 2024. Cafwyd adborth ardderchog gan fusnesau lleol a gymerodd ran ac sydd wedi cael sylw yn y wasg leol. Mae gwaith wedi parhau i gyflwyno cynlluniau grant ac annog busnesau lleol i fanteisio arnynt gan fod y nifer sy'n manteisio arnynt wedi bod yn wych. (CPE028T)
- Sicrhaodd y Tîm Adfywio £1.178miliwn gan Lywodraeth y DU i gyflawni Rhaglen Fuddsoddi Canol Trefi ar draws saith tref yn Sir y Fflint (Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Shotton, Queensferry) yn 2023/24 a 2024/25. Mae'r rhaglen yn cynnwys naw prosiect i gyd – cymysgedd o fentrau cyfalaf a refeniw wedi'u hanelu at gefnogi strydoedd mawr Sir y Fflint. (CPE025T)
- Yn ystod Ionawr - Mawrth 2024, mae Swyddog Menter Gymdeithasol y Cyngor wedi darparu 42 o sesiynau cymorth i fentrau cymdeithasol yn nhrefi Bwcle, Cei Connah, yr Wyddgrug a Shotton. Mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys deall eu hanghenion a theilwra'r gefnogaeth a ddarperir ar eu cyfer yn ogystal ag annog y mentrau cymdeithasol i ddefnyddio pecyn cymorth Effaith Gymdeithasol Sir y Fflint i gyfrifo eu gwerth cymdeithasol cyffredinol. O'r sefydliadau a gefnogwyd dros y tri mis diwethaf, mae hyn wedi golygu cofnodi cyfanswm o £807,269 o werth cymdeithasol. (CPE054T)

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- £466,458 wedi'i sicrhau o 'Trawsnewid Trefi' Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. £180,000 o'r cyfanswm hwn yn cael ei gyfrannu i fusnesau tuag at wella eu hadeiladau. (CPE025T)
- Mae £63,130 wedi'i ddyfarnu i gymunedau lleol i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau mewn trefi ar draws Sir y Fflint i wella nifer yr ymwelwyr a bywiogrwydd trefi. (CPE025T)
- Mae datblygiad pecyn cymorth Effaith Gymdeithasol Sir y Fflint a chynnydd yn nifer y mentrau cymdeithasol sy'n ei ddefnyddio, yn parhau i ddangos effaith gweithgarwch menter gymdeithasol yn Sir y Fflint. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn (2023/24) adroddodd y 14 o fentrau cymdeithasol a gymerodd ran eu bod wedi creu gwerth cymdeithasol cyfunol o £2,119,680.98 drwy'r 18 o weithgareddau a oedd yn cael eu mesur. (CPE054T)
- Mae'r Tîm Datblygu Busnes wedi darparu dau weithdy Sero Net ac mewn partneriaeth â Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy wedi cynnal pedwar digwyddiad rhwydwaith, gan ymgysylltu â 271 o gynrychiolwyr busnes drwy gydol y flwyddyn. (CPE033T)
- Mae Marchnad Stryd yr Wyddgrug yn parhau i ffynnu gyda chyfartaledd o 66 o fasnachwyr yn mynychu pob diwrnod marchnad ac mae 24 o fasnachwyr newydd wedi cael llety ers mis Ebrill 2023, (gan gynnwys disodli stondinwyr wedi ymddeol). Ar hyn o bryd mae 87% o stondinau ym Marchnad Dan Do yr Wyddgrug ac mae diddordeb wedi'i ddangos yn y ddwy uned wag sy'n weddill.
- Cynhaliwyd 143 o sesiynau cymorth i fusnesau ar gyfer 43 o fentrau cymdeithasol.
- Ymgysylltwyd â dros 90 o fuddsoddwyr masnachol i gefnogi busnesau newydd i symud i Sir y Fflint neu ehangu eu gweithrediadau presennol.
- Mae cysylltedd ffibr wedi gwella'n sylweddol yn Sir y Fflint yn ddiweddar. Mae nifer o brosiectau rhanbarthol i wella cysylltedd yn nesáu at y cyfnod cyflawni. Yn lleol, mae gwaith yn mynd rhagddo i annog gweithredwyr rhwydwaith i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth ffonau symudol a'r capasiti. (CPE05T)
- Mae partneriaeth lwyddiannus ar y cyd rhwng Cymunedau am Waith a Mwy, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru drwy'r grŵp Digwyddiadau Swyddi, Sgiliau a Hyfforddiant wedi cyflwyno nifer o brosiectau llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn gan amlygu cyfleoedd sydd ar gael yn lleol. (CPE042T)
- Sicrhawyd £160,000 o Grant Cronfa Hanfodion Gwych i ddatblygu a gwella llwybrau a gydnabyddir yn rhanbarthol ar draws Sir y Fflint a'r isadeiledd cysylltiedig.
- Cefnogodd Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint y gwaith o sicrhau a darparu cyllid o £64,000 gan Cadwyn Clwyd i gefnogi gweithgareddau busnes a marchnata ehangach dros yr haf. (CPE032T)
- Cyflwynwyd Cwrs Llysgenhadon Twristiaeth Sir y Fflint ym mis Gorffennaf 2023. Mae saith deg o lysgenhadon wedi cwblhau a chyflawni'r Wobr Efydd ac Arian yn ystod 2023/24. (CPE032T) www.ambassador.wales/cy/

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- Is-flaenoriaeth - Adfywio Gwledig

  **CPE052T** Recriwtio Swyddog Cysylltedd Digidol i gefnogi cymunedau gwledig i gael mynediad at opsiynau cysylltedd o ansawdd gwell.

  **CPE035M** Penodi Swyddog Cysylltedd Digidol.

  **CPE036M** Adroddiad anghenion gwledig wedi'i gwblhau.

- Sub-priority - Town Centre Regeneration

  **CPE038M** 3 (o 7) Gynllun Creu Lleoedd cychwynnol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid

- Is-flaenoriaeth - Targedau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

  **CPE039M** Cwblhau Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y CDLl a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

  **CPE040M** Cwblhau adolygiad blynyddol o daflwybr tai'r CDLl.

  **CPE042M** Cyfraniad at gwmpasu ffurf a chynnwys Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru.

- Is-flaenoriaeth - Lleihau Diweithdra

  **CPE043T** Cyflwyno rhaglenni mentora a chymorth ehangach i gynorthwyo pobl ddifreintiedig i ailgysylltu â'r farchnad lafur.

  **CPE013M** Nifer yr unigolion sy'n cael cymorth.

## Future Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

- Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a chymunedau er mwyn cynyddu'r defnydd o gludiant gyhoeddus drwy gyflwyno gwelliannau addysg ac isadeiledd.




# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Blaenoriaeth:

**Amcan Lles:**

**Cefnogi pobl mewn angen i fyw cystal ag y gallent.**





## Lles Personol a Chymunedol

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Parhau i dyfu'r farchnad Meicro-Ofal gan gynnwys mynediad at becynnau gofal a gomisiynir.
- Datblygu dull cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar er mwyn i bob plentyn hwng 0 a 7 oed gael y dechrau gorau posibl i fywyd a chyrraedd eu potensial llawn.
- Cefnogi pobl i gyflawni eu deilliannau lles meddyliol drwy hyrwyddo lles personol a chymunedol drwy gyrsiau mynediad agored sy'n cael eu darparu gan y Bartneriaeth Ddysgu.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu llwybrau clir i unigolion sydd angen defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a model cynaliadwy i'r dyfodol.
- Defnyddio'r model dilyniant fel ffordd o hybu sgiliau annibyniaeth pobl.
- Darparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer gofal camu i lawr o fewn ein darpariaeth fewnol (Tŷ Croes Atti 2).
- Gweithio gyda'r Adran Dai i ariannu tîm bychan o bobl i gefnogi unigolion gyda phroblemau Iechyd Meddwl lefel isel i wella eu tai.
- Cynllunio ar gyfer adleoli prosiect cyflogaeth â chymorth Tri Ffordd i Faes Gwern yn yr Wyddgrug.
- Paratoi at weithredu'r gweithdrefnau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd.
- Darparu rhaglen o Gartrefi Plant cofrestredig er mwyn osgoi'r angen i leoli plant tu allan i Sir y Fflint.
- Archwilio'r posibilrwydd o ailgomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn rheolaidd.
- Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a chynnig darpariaeth ddi-dor ar draws rhaglenni.
- Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth maethu i gefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal.
- Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth cartref gofa l mewnol i gefnogi rhagor o bobl i fyw yn eu cartrefi, gan ddefnyddio rhaglen recriwtio dreigl.
- Sefydlu Grŵp Gweithredu Strategaeth Dementia, i gynnwys cynrychiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy





- Roedd 46 o fusnesau Micro-ofal yn weithredol ddiwedd Mawrth 2024. Y bwriad yw cynyddu hyn gan 10 darparwr arall dros y 12 mis nesaf. (CSS014T)
- Mae'r Tîm Lles ac Adferiad bellach yn gwbl weithredol ac yn cyflawni canlyniadau rhagorol. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y preswylwyrhynn y sydd â phroblemau tai, neu sy'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd angen cymorth ychwanegol oherwydd eu hiechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn profi'n llwyddiannus iawn ac ar hyn o bryd mae ganddo lwyth achosion llawn a rhestr aros. Ariennir y gwasanaeth yn rhannol drwy'r Grant Cymorth Gofal Cymdeithasol a Thai a rhoddir ystyriaeth i gynyddu capasiti yn ystod 2024-2025. (CSS015T)
- Er mwyn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer gofal cam-i-lawr o fewn ein darpariaeth fewnol, cytunwyd ar ddeuddeg gwely Cam-i-lawr Rhyddhau i Adfer ac Asesu ar gyfer Croes Atti Newydd (y bwriedir ei gwblhau ym mis Mai 2025). Bydd hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth cam-i-lawr o'i lefel bresennol o 16 i gyfanswm o 28 ar draws Sir y Fflint. (CSS011T)
- Mae'r cysyniad dylunio ar gyfer canolbwynt Maes Gwern wedi esblygu i ymgorffori meysydd i alluogi gwasanaethau iechyd a therapïau i gael eu darparu ar y safle. Mae hyn yn ychwanegol at y gwasanaethau cymorth anabledd dysgu, iechyd meddwl ac awtistiaeth i greu canolbwynt gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd integredig. Dyddiad cychwyn y gwaith adeiladu i ddechrau Ebrill 2024. (CSS002T)
- Parhau i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau lles meddwl trwy hyrwyddo lles personol a chymunedol trwy gyrsiau mynediad agored a ddarperir gan y Bartneriaeth Ddysgu, gyda 66 o gyrsiau ar gael. Mae nifer dda wedi mynychu cyrsiau drwy gydol y flwyddyn ariannol. (CSS003T)
- Mae gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru yn parhau i ddarparu lefel o wasanaeth sy'n rhagori ar safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau am offer. mae 93% o offer wedi cael eu hailddefnyddio eleni; mae hyn yn cyfateb i osgoi costau o £2,1857,980 (£42,076 yr wythnos ar gyfartaledd). Heb y lefel hon o ailddefnyddio offer, dim ond 12.5 wythnos o weithredu y byddai cyllideb Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru yn ei gynnwys. (CSS006T)
- Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, derbyniwyd 1109 o adroddiadau diogelu oedolion, sef cynnydd o 23% ar y llynedd. Roedd 667 o'r adroddiadau hyn yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymchwiliad o dan Adran 126, sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw,

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy



fodd bynnag, mae'r Uned Ddiogelu yn parhau i flaenoriaethu adroddiadau diogelu ar sail unigol. (CSS006T)

- Mae'r cartrefi preswyl plant bellach yn gwbl weithredol. Mae Tŷ Nyth yn bartneriaeth dri pharti rhwng Cyngor Sir y Fflint (CSFf), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n cynnig hyd at bedwar lle i blant a phobl ifanc 8-18 oed. Mae Park Avenue yn cynnig gofal a chymorth; gan gynnwys llety i hyd at 4 plentyn ac unigolyn ifanc rhwng 8-18 oed, a gefnogir gan Gyngor Sir y Fflint. Mae Bromfield Park a Chevrons Road yn cynnig gofal a chymorth gan gynnwys llety ar gyfer un unigolyn ifanc rhwng 8 a 18 oed fel lleoliad unigol neu ar gyfer dau o frodyr/chwiorydd rhwng 8 a 18. Fflat argyfwng brys ar safle Tŷ Nyth yw Mesen Fach. (CSS007T)
- Mae recriwtio gofalwyr maeth wedi bod yn weithredol eleni, gyda phedwar gofalwr maeth cyffredinol newydd wedi'u cymeradwyo ac wyth gofalwr person cysylltiedig arall. (CSS008T)
- FMae Cam 2 ehangu gofal plant rhan-amser Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed yn cael ei gyflwyno ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd gyda 23 o blant ychwanegol ar gyfer 2024/25. (CSS018T)
- Mae'r Contract Eiriolaeth Oedolion wedi'i gomisiynu'n llwyddiannus mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dyfarnwyd hwn i ASNEW ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac Eiriolaeth Gymunedol, ac mae Advance Brighter Futures wedi ennill gwobr Hunan Eiriolaeth. (CSS016T)
- Mae Strategaeth Dementia Sir y Fflint yn cefnogi tua 850 o bobl sy'n byw gyda dementia, a gofalwyr, sy'n derbyn gofal a chymorth neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn Sir y Fflint.
- Trwy gydol 2023 mynychwyd dros ddeg ar hugain o ddigwyddiadau cymunedol i ymgysylltu â thrigolion Sir y Fflint i ysgogi mentrau amgylcheddol a newid ymddygiad.
- Mae pedwar sesiwn ar ddeg sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chwaraeon i bobl ifanc o amgylch Sir y Fflint ar gael. Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithio gyda chynghorau cymuned ac yn cynnal y cyfarfodydd diogelu cyd-destunol i sicrhau eu bod yn yr ardaloedd cywir.



# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## The Council's Plan (2023-28) Objectives Off Track

- Is-flaenoriaeth - Diogelu

**CSS011M** Canran yr asesiadau cyn-geni a gwblhawyd o fewn yr amserlenni.

- Is-flaenoriaeth - Amgylchedd Lleol Diogel, Glân a Chysylltiadau Da

**CST011M** Nifer yr ymgyrchoedd addysgol amgylcheddol wedi'u targedu a gynhaliwyd i hyrwyddo Gwell Ansawdd Amgylcheddol Lleol.





## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol


- Mae recriwtio ar gyfer gofalwyr cartref mewnol yn parhau i fod yn heriol, ond mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun recriwtio i helpu i gynyddu'r gweithlu a chynyddu cyfran y farchnad.
- Cynyddu nifer yr hyrwyddwyr cymunedol i gyflwyno mentrau amgylcheddol.

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Blaenoriaeth:

**Amcan Lles:**

**Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu**




# Addysg a Sgiliau

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Cefnogi gweithrediad y cwricwlwm diwygiedig ar gyfer disgyblion uwchradd ym mlynyddoedd 7 ac 8.
- Parhau i gyflwyno Darpariaeth Amgen (Addysg) a chynyddu nifer y bobl ifanc ar y rhaglen sy'n ennill cymwysterau ac yn cyflawni eu llawn botensial (yn amodol ar arian grant allanol).
- Darparu cefnogaeth bwrpasol i ysgolion trwy hyfforddiant a datblygiad i wella lefel sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu disgyblion.
- Archwilio a datblygu opsiynau ar gyfer darpariaeth fewnol mewn ymateb i'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n cael trafferth ymgysylltu ag addysg oherwydd anawsterau iechyd meddwl.
- Ymgorffori'r cynllun cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig drwy barhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu digidol, drwy'r ysgol a'r gymuned.
- Darparu cyfleoedd hyfforddi Gwobr Dug Caeredin i bobl ifanc mewn Darpariaeth Amgen, ysgolion, a grwpiau cymunedol (yn amodol ar arian grant allanol).
- Trefnu cymeradwyaeth y Cyngor i ddatblygu prosiectau Cymunedau Cynaliadwy Band B Llywodraeth Cymru o fewn y Rhaglen Buddsoddi mewn Dysgu.
- Parhau i adeiladu campws 3-16 ym Mynydd Isa
- Cyflwyno'r rhaglen Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG).
- Cwblhau'r camau strategol blynyddol o fewn cynllun gweithredu 5 mlynedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Cynnal rhaglen atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu anabledd a'u teuluoedd i ddarparu cyfleoedd gweithgaredd corfforol cost isel / di-dâl i wella iechyd a lles cyffredinol.
- Ymgorffori Dull Gweithredu Ysgol Gyfan i Iechyd a Lles Emosiynol ym mhob ysgol yn Sir y Fflint.

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- Cymwysterau Anffurfiol yn cael eu darparu gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint a chafodd wyth o bobl ifanc eu recriwtio ar gyfer Gwobr Arweinwyr Ifanc Gwaith Ieuenctid.
- Gwrth-Hiliaeth: Mae 'Arweinwyr Nawr' yn brosiect peilot sydd wedi gweld pobl ifanc o bedair ysgol uwchradd yn Sir y Fflint yn arwain y ffordd wrth herio hiliaeth yn eu lleoliadau eu hunain.
- Mae'r model ymyrraeth ar gyfer y Tîm Ysgolion Bro wedi'i sefydlu a'i ddatblygu ymhellach i ganolbwyntio ar bontio. (CEY045T)
- Mae pob ysgol uwchradd yn Sir y Fflint wedi gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer disgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023. Mae pob ysgol yn parhau i weithio gyda'u hymgynghorydd gwella cynorthwyol i ymgorffori'r gwaith hwn. (CEY044T)
- Dros y chwe mis diwethaf, o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024, mae prosiect PlayPals wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus ar draws wyth ysgol mewn gwahanol ardaloedd yn Sir y Fflint.
- Addysg Sylweddau gan Sorted Sir y Fflint: Ymgymerwyd â hyn mewn deuddeg ysgol a UCD trwy wasanaethau, sesiynau cerdded o gwmpas amser cinio a mewnbwn i wersi, gan ymgysylltu â chyfanswm o 2,152 o blant a phobl ifanc. Cynhaliwyd 75 o sesiynau yn y gymuned hefyd.
- Cofrestrodd dros 70 o bobl ifanc ar gwrs Gwobr Dug Caeredin Efydd ac Arian. (CAU019T)
- Rhoddwyd £6.23m o fuddsoddiad cyfalaf ar draws y rhwydwaith ysgolion i wella cyfleusterau i ddysgwyr.
- CMae'r gwaith o adeiladu campws 3-16 newydd yn parhau ac yn mynd rhagddo'n dda, ar ôl i'r safle ddechrau ym mis Tachwedd 2022 ar safle Ysgol Uwchradd Argoed. (CEY015T)
- Llwyddodd chwe deg o bobl ifanc i gwblhau Gwobr John Muir trwy'r rhaglen Ysgol Goedwig.
- Mae cyfraniad y Cyngor i'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i dyfu, gyda dros 1,036 o ddysgwyr a 246 o sesiynau'n cael eu darparu yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae enghreifftiau o'r cyrsiau a ddarparwyd gennym yn cynnwys- Cymorth Cyntaf i Rieni, Ffitrwydd Cyn ac Ôl-enedigol, Sgiliau Cyflogadwyedd, Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, Diogelu, gweithdai Cyfryngau Cymdeithasol, cymwysterau Diogelwch Bwyd. (CAU020T)
- Sicrhawyd cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i wella ymatebion a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio trwy alluogi Gweithredu dros Blant i gyflawni eu Rhaglen SideStep tan fis Rhagfyr 2025.
- Clwb Cerddoriaeth Gymraeg - cymerodd 35 o bobl ifanc ran mewn rhaglen 4 wythnos ar draws dwy ysgol.
- Bu 56 o bobl ifanc o ysgolion uwchradd yn cystadlu yn yr Eisteddfod mewn amrywiaeth o gystadlaethau gwahanol, gan gynnwys Cogurdd, Dawns, Canu a Llefaru.
- Mae adolygiad wedi'i gynnal i ystyried y ddarpariaeth bresennol ac ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg i bennu'r angen. Mae'r canfyddiadau'n cael eu coladu a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. (CEY054T)
- Mae ysgolion Sir y Fflint yn ymgysylltu'n gadarnhaol â datblygu eu gwaith o amgylch yr ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo wrth i ysgolion barhau i ymgorffori arfer effeithiol. (CEY055T)

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles 5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- Llwyddodd 24 o ymgeiswyr o ysgolion ac Addysg ac Ieuenctid i gwblhau hyfforddiant diploma lleol Ysgolion Sy'n Deall Trawma y DU. (CEY056T)
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni cynllun cyflawni'r Gwasanaethau Ieuenctid Integredig yn llwyddiannus trwy gynnal presenoldeb digidol cryf, sicrhau bod gweithwyr trochi ysgol a chymuned a'r tîm chwarae yn weithgar mewn ysgolion, a chynnal ymgysylltiad cymunedol parhaus. (CEY011T)
- Mae pob ysgol bellach wedi mabwysiadu eu strategaeth ddigidol eu hunain yn ffurfiol. Mae hyn yn rhoi safon i bob ysgol weithio ohoni er mwyn datblygu eu dilyniant digidol mewn modd strwythuredig. (CEY048T)

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- Is-flaenoriaeth - Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol

  **CEY004M** Gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau parhaol.

  **CEY005M** Gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

- Is-flaenoriaeth - Cyfleoedd Dysgu Digidol

  **CEY017M** Nifer y Sesiynau Gwaith Ieuenctid a Gyflwynwyd - Digidol

- Is-flaenoriaeth - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

  **CEY011M** Nifer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg



## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol


- Mae lefel y gwaharddiadau yn parhau'n uchel ar draws ysgolion uwchradd, ac mae hon yn parhau i fod yn flaenoriaeth wedi'i thargedu. Bydd y ffocws ar arfer wedi'i lywio gan drawma yn parhau gyda'r nod o gefnogi gostyngiad yn yr angen am wahardd drwy annog ysgolion i fabwysiadu dull gwahanol o reoli digwyddiadau o ymddygiad difrifol.
- Bu bwlch o 12 mis o ran swydd y Gweithiwr Ieuenctid Cymraeg. Cafodd deiliad newydd y swydd ei recriwtio'n llwyddiannus ar ddiwedd 2023 a dechreuodd ym mis Mai 2024. Mae cynnal y prosiectau presennol wedi bod yn llwyddiant a bydd ffocws cael eu gosod ar dwf ar gyfer 2024/25, gan gynnwys sgiliau Cymraeg ar draws y tîm chwarae ac ieuenctid.

# 5 Asesiad o’n Saith Blaenoriaeth a’n Hamcanion Lles

## Blaenoriaeth:

**Amcan Lles:**

**Cyngor cyfrifol, dyfeisgar y gellir ymddiried ynddo yn gweithredu mor effeithlon â phosibl.**




## Cyngor a Reolir yn Dda

### Yr Hyn a Ddywedom y Byddwn yn ei Wneud:

- Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth.
- Recriwtio digon o staff parhaol o ansawdd uchel gyda chymwysterau a phrofiad addas.
- Cadw gweithwyr presennol trwy eu cefnogi i gyflawni eu rolau’n effeithiol, a thrwy sicrhau bod ein harlwy cyfan ar gyfer gweithwyr newydd a phresennol yn gystadleuol o fewn y farchnad.
- Cynyddu lefel y Gymraeg ar draws y sefydliad.
- Datblygu a rhoi Cynllun Gweithredu ar waith i gwrdd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru.
- Pob Portffolio ar draws y Cyngor i gwblhau hunanasesiad blynyddol yn erbyn safonau’r Gymraeg a rhoi cynllun gweithredu ar waith.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb statudol yn y sector cyhoeddus.
- Sicrhau bod anghenion cyllido’r Cyngor ar gyfer y tymor canolig yn cael eu diwallu trwy gynllunio ariannol.
- Sicrhau bod prosesau cadarn yn bodoli ar gyfer rheoli ac adennill dyledion gan gynnwys Treth y Cyngor a rhent.
- Monitro Cynnydd y Cyngor yn erbyn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.
- Parhau i ddarparu Canolfan Gyswllt gorfforaethol ar gyfer delio â galwadau ffôn i’r Cyngor.
- Ddarparu mynediad at wasanaethau’r cyngor ar y rhyngrwyd mewn modd ymatebol (gellir cael mynediad at wybodaeth gan ddefnyddio dyfeisiau gwahanol).
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, datblygu a chyhoeddi Cynllun Lles lleol ar gyfer 2023-28 yn nodi’r amcanion lles lleol a sut mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, yn bwriadu eu cyflawni.
- Cynnal tri digwyddiad ymgysylltu i annog sefydliadau eraill i ymuno â Chyfamod y Lluoedd Arfog, sy’n cyfrannu at Gyngor Sir y Fflint yn cael ei ail-achredu â Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn 2024.

# Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

5

## Llwyddiannau Allweddol a Mwy

- Yn ystod y flwyddyn llenwyd 754 o swyddi, sy'n gadarnhaol ac yn dangos ein bod yn gallu recriwtio i nifer fawr o swyddi, a bydd pob un ohonynt wedi'u hasesu fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd (gan gynnwys cymwysterau a phrofiad), (canran a bennwyd ar ôl didynnu'r rhai a ddechreuodd gyflogaeth ond a adawodd yn ystod y 12 mis cyntaf). (CHR004T)
- Trosiant ar gyfer 2023/24 oedd 13.55%, sy'n golygu bod y sefydlogrwydd am y flwyddyn yn 88.69%. (CHR005T)
- Mae nifer o ddysgwyr wedi cyrchu ystod o gyrsiau Cymraeg a thrwy gynnig gwahanol lefelau/dulliau dysgu mae'n ei gwneud yn fwy hygyrch. (CHR008T)
- Cafwyd 2,403 o fynediadau porthol i Vivup o fis Medi 2023 hyd at ddiwedd mis Chwefror 2024. Mae 500 o lawrlwythiadau hunangymorth wedi'u cofnodi ac mae 63 o weithwyr wedi cael mynediad at gwnsela. (CHR007T)
- Mae'r hunanasesiad blynyddol ar gyfer pob Portffolio wedi'i gwblhau, gyda chamau gweithredu wedi'u nodi a'u rhoi ar waith. Mae adolygiadau a nodiadau atgoffa rheolaidd o Safonau'r Gymraeg yn parhau i gael eu rhannu ar draws y Portffolios. (CPA004M)
- Cymeradwywyd a chyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun gweithredu bellach wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/28 sydd bellach wedi'i gyhoeddi. (CPA004T)
- Llwyddodd y Cyngor i osod cyllideb gyfreithiol a mantol ar gyfer 2024/25 ym mis Chwefror 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 ymlaen ac mae adroddiad diweddaru wedi'i amserlennu ar gyfer Mehefin/Gorffennaf 2024. (CFI001T)
- Mae'r Cyngor yn parhau i gymhwyso prosesau adennill dyledion cadarn, ond teg, i sicrhau'r lefelau casglu mwyaf posibl ar draws pob adran. Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth Refeniw yn ymgysylltu'n adeiladol â thrigolion sy'n ei chael hi'n anodd bodloni eu rhwymedigaethau talu trwy lunio cynlluniau talu fforddiadwy. Mae'r dull o adennill dyledion wedi'i nodi ym Mholisi Adennill Dyledion Corfforaethol y Cyngor. (CFI004T)
- Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn llywio'r Rhaglen Gyfalaf, a adolygir yn flynyddol, a chaiff cynnydd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei adnewyddu yn 2024/25. (CPA005T)
- Gwaith wedi dechrau ar y Strategaeth Swyddfeydd; mae egwyddorion drafft wedi'u paratoi ac mae angen gwaith pellach i gadarnhau egwyddorion. (CPA007T)
- Mae'r Ganolfan Gyswllt gorfforaethol ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 08:30 - 17:00. Mae'r tîm yn parhau i ymdrin ag ystod eang o alwadau ffôn ar gyfer gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Stryd, Cynllunio, Etholiadau a Bathodynnau Glas. Yn ogystal, mae'r tîm yn ateb galwadau i brif rif ffôn y Cyngor. (CGV009T)
- Mae Canolbwynt Digidol Sir y Fflint yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth o fentrau i helpu pobl ddefnyddio technoleg ddigidol nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Canolbwynt yn cynnwys adnoddau i gadw pobl yn ddigidol ar-lein, hyfforddiant, adnoddau iechyd a lles, digwyddiadau digidol a gweithgareddau. Mae'r Canolbwynt hefyd yn darparu gwybodaeth am gynlluniau uchelgeisiol y Cyngor sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Ddigidol.
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint a Wrecsam

# 5 Asesiad o'n Saith Blaenoriaeth a'n Hamcanion Lles

ar y cyd wedi bod yn gweithio ar flwyddyn gyntaf Cynllun Lles 2023-28. Mae tri Bwrdd Canlyniad a Thîm Integreiddio wedi'u sefydlu ac mae gwaith prosiect partneriaeth yn parhau. (CPA010T)

## Cynllun y Cyngor (2023-28) Amcanion Oddi ar y Trywydd

- Is-flaenoriaeth - Pobl

  **CHR001M** Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch.

  **CHR003M** Canran y gweithwyr parhaol sy'n gadael o fewn blwyddyn gyntaf eu cyflogaeth

  **CHR004M** Canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau gorfodol.

- Is-flaenoriaeth - Asedau Sir y Fflint

  **CPA006M** Adolygiad rhent masnachol wedi'i gwblhau: Cynyddu incwm rhent yn unol â rhenti cyffredinol y farchnad i wneud yn siŵr bod incwm rhent yn cael ei optimeiddio. Er mwyn sicrhau cysondeb rhent o fewn ystadau.

  **CPA007M** Arfarniad/strategaeth opsiynau Prif Gynllun Neuadd y Sir: Datblygu cynllun a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer ailddatblygu safle Neuadd y Sir.

- Is-flaenoriaeth - Digidol

  **CGV008M** Atebwyd 80% o alwadau ffôn i'r Ganolfan Gyswllt gorfforaethol.

- Is-flaenoriaeth - Partneriaethau

  **CPA009M** Nifer y sefydliadau sy'n ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog.



## Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

- Er bod y defnydd o weithwyr asiantaeth wedi cynyddu yn 2023/24, mae lleihau'r defnydd o weithwyr asiantaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.
- Tanysgrifwyr isel i Fy Nghyfrif gan Ddeiliaid Contract (tenantiaid). Bydd hyrwyddo yn helpu i godi ymwybyddiaeth a dylai Swyddogion Tai anelu at gynnig digidol yn ddiofyn pryd bynnag y cyhoeddir contract newydd.
- Mae angen i ni annog mwy o sefydliadau i ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Ymunodd dau sefydliad â'r Cyfamod yn ystod 2023/24.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 6




**Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024-28 newydd wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a chynllun gweithredu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwestiynu, + (LHDTC+) ar gyfer Cymru. Mae Tîm Tai'r Cyngor yn gweithio gyda Tai Pawb i ddatblygu camau gweithredu penodol a hyfforddiant i ymgorffori dull gwrth-hiliaeth o fewn y Gwasanaeth. Mae modiwl e-ddysgu LHDTC+ newydd wedi'i ddatblygu i gefnogi'r gwaith o roi'r CCS newydd ar waith ac i fodloni ymrwymiadau Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.**

Adolygodd Vision Support wefan y Cyngor i sicrhau ei bod yn gwbl hygyrch i bobl sy'n ddall neu â nam ar eu golwg. Roedd canlyniadau eu hadolygiad yn gadarnhaol ac ni nodwyd unrhyw broblemau gyda hygyrchedd.

Rydym wedi parhau i weithio gyda Phrifysgol Manceinion ar ddatblygu dull newydd ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig (IIA). Mae'r Offeryn IIA newydd wedi'i dreialu gan nifer o swyddogion ar draws y Cyngor, sy'n cymryd i ystyriaeth argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad "Asesiadau Effaith Cydraddoldeb: mwy nag ymarfer ticio blychau". Bydd gwerthusiad o'r Offeryn newydd yn cael ei gwblhau gan y Brifysgol yn ystod 2024/25 a fydd yn cynnwys cyfweliadau ag awduron yr IIA a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn helpu i ddeall sut mae canlyniadau IIAs yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor.

# 7 Y Gymraeg

Bu cynnydd yn nifer y mentrau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan weithwyr. Yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg a chynnig sesiynau sgwrsio anffurfiol. Mae sawl tîm yn cymryd rhan ym mhrosiect ARFer Prifysgol Bangor sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol ymhlith gweithwyr, beth bynnag fo lefel eu sgil. Rydym wedi datblygu recordiadau fideo gyda ffoneg i gefnogi gweithwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd ac ar y ffôn. Mae hyn yn golygu y gall gweithwyr glywed a gweld geiriau ac ymadroddion i gefnogi ynganiad.

Cyflwynodd Iaith, y Ganolfan Gymraeg ar gyfer cynllunio iaith, gyfres o gyrsiau - "Cymraeg i Bawb" a "Cymraeg i Reolwyr". Nod y cyrsiau hyn oedd edrych ar:

- **Ddylanwadau ar ddefnydd iaith -**
  Myfyrio ar brofiad a gwybodaeth bersonol, deall newidiadau i statws y Gymraeg a beth sy'n dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol.
- **Pam Defnyddio'r Gymraeg -**
  Deall Polisi a deddfwriaeth genedlaethol a'r Safonau Iaith yn Sir y Fflint.
- **Ffeithiau a ffigyrau am yr Iaith Gymraeg -**
  Demograffeg ieithyddol Cymru a Sir y Fflint
- **Gweithio'n Ddwyieithog** - pwysigrwydd gwasanaethau dwyieithog

Rydym wedi cael anawsterau o ran recriwtio ymgeiswyr am swyddi sy'n siarad Cymraeg, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill. I drechu hyn, rydym wedi gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a phartneriaid, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, y Mudiad Meithrin a Choleg Cambria, i ystyried atebion ar gyfer denu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'n sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys dau aelod staff yn cymryd rhan mewn fideos hyrwyddol i ddangos sut ydym ni'n cefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi comisiynu Iaith i edrych ar faterion a datrysiadau i recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod 2024/25.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom ofyn i weithwyr gwblhau arolwg agwedd at y Gymraeg a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i ddatblygu mwy o fentrau i hybu'r Gymraeg yn ystod 2024/25.



# Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio 8

**Mae gan Sir y Fflint hanes hir a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau y mae yn eu gwasanaethu yn disgwyl i bartneriaid statudol a thrydydd sector i weithio gyda'i gilydd i rannu blaenoriaethau drwy gydweithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gosod blaenoriaethau ar y cyd a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella lles yn lleol.**

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn ffurfiol ym mis Ebrill 2016, yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Unwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn ffurfiol ym mis Ionawr 2023.

Mae aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint, Coleg Cambria, Adran Gwaith a Phensiynau, Heddlu Gogledd Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn gweithio â'i gymunedau i newid sut rydym yn gwneud pethau, er mwyn gwneud yn siŵr y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, fel yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut rydym yn sicrhau iechyd meddwl cadarnhaol a lles i bawb.

Mae llunio Cynllun Lles pum mlynedd newydd wedi bod yn ffocws allweddol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam, trwy dynnu ar ganfyddiadau'r Asesiadau Lles a gynhaliwyd yn 2022. Mae Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam 2023 - 2028 newydd gael ei gwblhau a'i gymeradwyo ac mae'n cynnwys dau amcan lles ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf:

1. **Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.**
2. **Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.**

Mae sawl canlyniad yn deillio o'r amcanion hyn, ac maent yn dod o dan dair thema: Plant a Phobl Ifanc, Ein Cymunedau a Ble Rydym yn Gweithio.

Bydd Cynllun Lles 2023 - 2028 yn siapio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf a bydd yn gweithio'n agos â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal â gyda chymunedau lleol.



# 9 Rheoli Risg

**Caiff holl Gynlluniau'r Cyngor, risgiau sy'n dod i'r amlwg a busnes fel arfer eu nodi, eu hasesu, eu trin a'u monitro gan ddefnyddio Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor.**

Caiff risgiau eu nodi trwy ddefnyddio data ansoddol (cerrig milltir a chamau gweithredu) a meintiol (dangosyddion perfformiad, ariannol). Mae adnabod risgiau yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

Mae'n broses barhaus sydd wedi'i hymgorffori yn ein gwaith dyddiol (busnes fel arfer) yn ogystal â gwaith Cynllunio'r Cyngor, Cynllunio Busnes Portffolio, Rheoli Prosiectau, a Phartneriaethau (tymor byr, tymor canolig a hirdymor).




# Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu 10

**Mae’r Cyngor yn cael ei reoleiddio gan sefydliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae’r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, Archwilio Cymru, Estyn (yr arolygiaeth addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru.**

Mae’r Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 yn nodi’r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi’i wneud gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd fis Ebrill 2024. Yn gyffredinol, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dod i gasgliad cadarnhaol ac nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Mae manylion llawn yr adroddiad ar gael ar <u>wefan</u> Archwilio Cymru.




## GWEITHREDU AR NEWID HINSAWDD



| | ADEILADAU | SYMUDEDD A CHLUDIANT | CAFFAEL | |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 10,747 $tCO_2e$ | 6,716 $tCO_2e$ | 28,970 $tCO_2e$ | Gwaelodlin $tCO_2e$ |
| 2024/25 | 35% | 50% | 30% | GOSTWNG |
| 2029/30 | 60% | 80% | 60% | |






## DYSGU MWY



## CYSYLLTWCH Â NI

climatechange@siryfflint.gov.uk

Strategaeth Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint

Beth yw eich ôl-troed carbon

Ateb ein holiadur

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.*

*This document is also available in English. See English page on our website.*

# 12 Monitro'r Gyllideb 2023/24



## Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol 2023 - 2024

## Y gyllideb, eich Treth Cyngor a gwasanaethau lleol




Bob blwyddyn mae cynghorau'n gorfod gosod cyllideb sy'n taro cydbwysedd rhwng eu hadnoddau a'u hanghenion gwario. Rhwng 2008 a 2020 mae bob cyngor wedi cael arian gan y llywodraeth. Gan ei fod yn gyngor sy'n derbyn lefel isel o gyllid - wedi ei osod yn 20fed o'r 22 cyngor yng Nghymru - mae Sir y Fflint wedi bod yn arbennig o agored i effeithiau'r cyfnod hwn o gyni.

Mae Sir y Fflint wedi gostwng ei wariant **£100** miliwn dros y 14 blynedd ddiwethaf. Bob blwyddyn, mae'n mynd yn anoddach ac yn anoddach i wneud unrhyw arbedion eraill a diogelu gwasanaethau. Ar adegau, bu'n rhaid gwneud dewisiadau cyllidebol anodd.

## O le daw arian y Cyngor?





# Monitro’r Gyllideb 2023/24 12

## Sut y defnyddir arian Treth y Cyngor:

Mae Treth y Cyngor yr ydych chi’n ei thalu yn cynyddu bob blwyddyn, ond nid yw’r holl arian a gesglir yn mynd i dalu am wasanaethau’r cyngor. Mae hefyd yn cefnogi 34 o Gynghorau Tref a Chymuned, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac yn cyfrannu at gynnydd mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol eraill.

## Sut mae Treth y Cyngor yn cael ei rhannu rhwng y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

**£125.5M** yw cyfanswm Treth y Cyngor mae’r Cyngor yn disgwyl ei gasglu yn 2023/24:

**80%** yn cael ei gadw gan y Cyngor i gynnal gwasanaethau lleol.

**17%** yn cael ei gasglu ar ran Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**3%** yn cael ei chasglu ar ran ein Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gadw ei gynnydd blynyddol ar 5% neu lai ac wedi rhoi cynnydd o 3.99% ar waith i dalu am wasanaethau’r cyngor.

Mae pob un o’r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru hefyd yn cyfrannu at gostau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Crwneriaid Gogledd Cymru a GwE - y Gwasanaeth Gwella Addysg Rhanbarthol. Mae Sir y Fflint wedi ychwanegu 0.96% ychwanegol i dalu am gynnydd blynyddol yn y cyfraniadau hyn.

Daw hyn â chyfanswm cynnydd cyfran Cyngor Sir y Fflint o Dreth y Cyngor i 4.95%.



## Beth mae hyn yn ei olygu mewn termau ariannol ar gyfer Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24

Gan ddefnyddio eiddo Band D cyffredin fel enghraifft

| | 2023/24 | 2022/23 | Increased Cost | Percentage increase |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | £1,521.33 | £1,449.58 | £71.75 | 4.95% |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £333.09 | £316.80 | £16.29 | 5.14% |
| Cynghorau Tref a Chymuned* | £51.98* | £49.02* | £2.96* | 6.04%* |
| TOTAL COST | £1,906.40 | £1,815.40 | £91.00 | 5.01% |

* y gost ar gyfartaledd ar draws y 34 Cyngor Tref a Chymuned, bydd y gost ar filiau unigol yn amrywio o Gyngor i Gyngor



**Llwyddodd y Cyngor i fantoli’r gyllideb ar gyfer 2023/2024**

# 13 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

**Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn mynnu ein bod yn paratoi datganiad ar reolaeth fewnol.**

**Fel sawl awdurdod yng Nghymru, cyfeirir ato fel y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'. Dogfen gyhoeddus yw hon sy'n nodi i ba raddau rydym ni fel Cyngor yn cydymffurfio â'n cod llywodraethu ein hunain.**





**Yn y ddogfen hon byddwn ni, y Cyngor yn:**

- Cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn mewn lle;
- Crynhoi elfennau allweddol y fframwaith llywodraethu a rolau'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu;
- Disgrifio sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithlonrwydd ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio yn y cyfnod i ddod;
- Rhoi manylion ar sut rydym wedi ymateb i unrhyw fater a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd; a
- Adrodd ar unrhyw fater llywodraethu a nodwyd o'r adolygiad hwn ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw; a
- Wrth gyfeirio at y Cyngor, mae hyn yn cynnwys ei berthynas grŵp ag endidau eraill megis New Homes Newydd a Newydd

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y trefniant llywodraethu sydd wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 ac mae wedi'i ddiweddaru gyda chymeradwyaeth Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 13




**Ni fydd cam gweithredu ar wahân ar gyfer y rhai a gafodd sgôr o 3-4 os yw'r mater eisoes wedi'i gwmpasu gan gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhai a gafodd sgôr o 3.**


# 14 Hunanasesiad Corfforaethol

Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad corfforaethol ac nid yw'n asesiad manwl o berfformiad pob portffolio gwasanaeth, mae'r themâu asesu wedi'u cynllunio yn y modd hwn. Bwriad yr hunanasesiad corfforaethol yw darparu llwyfan ar gyfer sicrwydd a hunan-welliant a byddai'n arwain at gynllun gwella ar gyfer y sefydliad.

Mae'r model Hunanasesu Corfforaethol yn canolbwyntio ar nifer o themâu ac yn ystyried nifer o gwestiynau craidd o fewn pob un o'r themâu hyn. Fel gyda phob model mae'n anochel y bydd themâu'n croesi. Fodd bynnag, mae'r themâu wedi'u diffinio'n ddigonol i osgoi gormod o orgyffwrdd neu ddyblygu. Eleni, mae'r Hunanasesiad Corfforaethol hefyd yn ymgorffori nifer o gwestiynau ychwanegol a thema newydd i gwmpasu meysydd a fydd yn cael eu hystyried yn Asesiad Perfformiad y Panel.

Gan adeiladu ar y dull gweithredu yn 2021 mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn canolbwyntio'n gryfach ar i) gasgliad mwy cymesur ac wedi'i dargedu o dystiolaeth a ii) dadansoddi tystiolaeth, gan ganolbwyntio ar y cryfderau, y meysydd i'w datblygu a'r effaith a gyflawnir. Bydd y dull hwn yn helpu i lunio'r cynllun gweithredu.

## Cymhariaeth rhwng 2021/22 a 2022/23 Hunanasesiad Corfforaethol




■ Sgôr 5 - Arfer orau (1%) ■ Sgôr 4/5 - Arfer orau / Tystiolaeth dda (1%) ■ Sgôr 4 - Tystiolaeth dda (58%) ■ Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu (16%)
■ Sgôr 3 - Tystiolaeth ond mae angen camau gweithredu pellach (19%) ■ Sgôr 2/ 3 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol / Tystiolaeth ond mae angen camau gweithredu pellach (4%)
■ Sgôr 2 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol (1%)

Nodi: Ychwanegwyd dau gwestiwn ychwanegol i'r 22/23 Hunanasesiadau Corfforaethol mewn Thema A

# Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol 15



**Mae nifer o ddogfennau cysylltiedig sy'n ategu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac maent ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.**

- Cynllun y Cyngor 2023-28
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Safonau'r Gymraeg
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Fframwaith Rheoli Risg
- Hunanasesiad Corfforaethol
- Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Blaenorol

# 16 Adborth a Sut i Gael Rhagor o Wybodaeth



**Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24.**

Croesewir eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella cynnwys a chynllun yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y dyfodol.

Cysylltwch â'r Tîm Rheoli Perfformiad a Risg:
E-bost: **PRM@flintshire.gov.uk**